# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Strategaeth Ysgolion 2026 - 2036 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Chwefror 2026 |

## 1. Y Penderfyniad a Geisir

1.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth Ysgolion 2026 - 2036 **(Atodiad 1)**, ac yn dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Addysg, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Addysg, i wneud newidiadau an-arwyddocaol a golygyddol i'r Strategaeth cyn ei chyhoeddiad ffurfiol, ar yr amod nad yw'r newidiadau hynny'n effeithio'n sylweddol ar gynnwys, cyfeiriad strategol, blaenoriaethau na goblygiadau ariannol y Strategaeth.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

**2.1** Mae'r Strategaeth bresennol yn dyddio nôl i 2010. Yn dilyn proses estynedig o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yr ydym yn dymuno derbyn sêl bendith y Cabinet ar y cynnwys fydd yn sylfaen i gyfeiriad addysg yng Ngwynedd dros y ddegawd nesaf.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cyhoeddwyd y Strategaeth wreiddiol Rhaglen Strategol *"Tuag at 2025": Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd* yn 2010 er mwyn gosod cyfeiriad ar gyfer y maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd hyd at 2025. Mae'r Strategaeth Ysgolion ddrafft newydd sydd gerbron yn adeiladu ar seiliau'r Rhaglen Strategol yma am y degawd nesaf hyd at 2036.

### 3.2. Cefndir/ Cyflwyniad

3.2.1 Mae'r Adran Addysg wedi llunio'r Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 - 2036 er mwyn gosod cyfeiriad clir i'r ddarpariaeth ysgolion dros y ddegawd nesaf. Mae newidiadau pellgyrhaeddol wedi bod yn y maes addysg yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Strategaeth newydd yn ymateb i newidiadau cenedlaethol megis y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2028) ynghyd â disgwyliadau cynyddol ar ysgolion, ac yr angen i foderneiddio adeiladau ac adnoddau.

3.2.2 Mae ystyriaethau a gyrwyr lleol yn dylanwadu ar y gyfundrefn addysg, gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth hefyd. Rydym angen sicrhau ein bod yn cynnal a

chefnogi'r hyn sydd yn dda ac yn unigryw am y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd ag adnabod cyfleoedd i ymateb i rai o’r heriau sy’n debygol o wynebu’r gyfundrefn rŵan, ac i'r dyfodol, megis:

- Sicrhau hyfywedd a gwytnwch ein hysgolion pan fo gostyngiad yn niferoedd dysgwyr yn sgil cyfraddau geni isel.
- Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel ac ymateb i’r her o recriwtio athrawon a chymorthyddion yn ein hysgolion.
- Ymateb i’r her o gynnal y gyfundrefn addysg mewn cyfnod digynsail o doriadau i gyllidebau Awdurdodau Lleol.
- Cynnal a chryfhau ein darpariaeth addysg er mwyn galluogi plant a phobl ifanc Gwynedd i gyrraedd eu llawn botensial ac i feithrin y cymwysterau a’r sgiliau sy’n eu galluogi i fyw a ffynnu.
- Cynnal a chryfhau’r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd ysgol yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2021.
- Sicrhau gwasanaethau cefnogi lles rhagorol i blant a phobl ifanc Gwynedd er mwyn eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau a chyrraedd eu llawn botensial.
- Gwella ein stad ysgolion er mwyn sicrhau’r amgylchedd dysgu gorau posib i’n plant a’n pobl ifanc pan fo gennym gynifer o adeiladau i’w cynnal, a disgwyliad i’r stad ysgolion fod yn ddi-garbon dros y cyfnod nesaf.

3.2.3 Mae teitl y ddogfen wedi ei newid o Strategaeth Addysg i Strategaeth Ysgolion er mwyn cydnabod nad yw’r ddogfen hon yn cwmpasu darpariaeth ôl-16 na’r blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae’n cynnwys y sector Cynradd, Uwchradd ac Arbennig, sef craidd y rhwydwaith ysgolion yng Ngwynedd.
Wrth ei llunio, mae’r Adran Addysg wedi ystyried ystod eang o bolisïau a ffactorau perthnasol, megis:

- Cenedlaethol: Cymraeg 2050, Cwricwlwm i Gymru, Deddf ADY a’r Tribiwnlys 2018 a’r Cod 2021, Deddf Cydraddoldeb 2010, a’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.
- Lleol: Cynllun y Cyngor 2023–2028, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032, ymrwymiad y Cyngor i Garbon Sero Net, a’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

3.2.4 Gweledigaeth ar gyfer Addysg yng Ngwynedd.

Ein gweledigaeth yw sicrhau cyfundrefn addysg deg a chynhwysol sy’n diwallu anghenion pob dysgwr y Sir, ac sy’n rhoi’r cyfle iddynt gyrraedd eu llawn botensial.

Nid yw cefndir teuluol, lleoliad nag amgylchiadau personol i fod yn rhwystr i lwybr bywyd nac i ddewis cyfleoedd.

Rydym yn anelu at gyfundrefn sy’n:

- meithrin a hyrwyddo llesiant,
- darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf,
- ehangu gorwelion a datblygu sgiliau perthnasol i’r economi leol, ranbarthol,
- genedlaethol a’r byd-eang,

- creu llwybrau cadarn i sicrhau ffyniant i bob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd.

3.2.5 Mae'r Strategaeth yn cydnabod yn glir fod y drefn bresennol yn cynnwys nifer o wendidau sy'n gallu cael effaith andwyol ar ansawdd addysg. Ymhlith y rhain mae amrywioldeb sylweddol rhwng ysgolion o ran adnoddau a chyfleoedd cwricwlaidd, heriau recriwtio sy'n arwain at ddiffyg cysondeb mewn addysgu, a bregusrwydd ysgolion llai o ran arweinyddiaeth a chynaliadwyedd. Gall y ffactorau hyn greu profiad anghyson i ddysgwyr a lleihau eu cyfleoedd i gyrraedd eu potensial.
Er mwyn ymateb i'r heriau hyn mewn ffordd gadarnhaol, mae'r Strategaeth yn nodi cyfres o gamau gweithredu clir i wella ansawdd addysg a sicrhau cysondeb ar draws y sir:

1. **Cryfhau arweinyddiaeth ysgolion**
   Trwy hyrwyddo modelau arweinyddiaeth, rhannu arbenigedd lle'n briodol ac adeiladu capasiti arweinwyr presennol a'r dyfodol, mae'r Strategaeth yn ceisio creu system fwy gwydn sy'n llai agored i effaith newid.

2. **Sicrhau rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac effeithiol**
   Mae'r Strategaeth yn ystyried sut y gellir trefnu'r rhwydwaith ysgolion fel bod pob un yn gallu cynnig cwricwlwm eang, cefnogaeth briodol a darpariaeth o ansawdd, gan leihau'r anghysondebau a welir yn y drefn bresennol.

3. **Datblygu gweithlu medrus a dwyieithog**
   Drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, hybu cadw staff a denu athrawon newydd, mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â'r heriau recriwtio sy'n gwanhau ansawdd addysgu mewn rhai lleoliadau.

4. **Buddsoddi mewn amgylcheddau dysgu modern**
   Mae'r Strategaeth yn blaenoriaethu adeiladau ac isadeiledd sy'n cefnogi addysg gyfoes, gan leihau'r amrywioldeb mewn safonau rhwng safleoedd ac yn gwella profiadau dysgwyr.

5. **Pwyslais ar les, ymddygiad a chynhwysiant**
   Trwy ddatblygu dull ysgol gyfan sy'n cefnogi iechyd emosiynol, rheoli ymddygiad cadarnhaol a chynhwysiant, mae'r Strategaeth yn adeiladu'r seiliau sy'n galluogi dysgwyr i ffynnu.

6. **Cefnogaeth fwy cydlynol i ysgolion**

Mae'n amlygu ein trefniadau cefnogi newydd fydd yn cynnig ymateb cyflymach ac unffurf i heriau, gan sicrhau bod ymyriadau effeithiol yn digwydd cyn i broblemau gychwyn.

3.2.6 Yn ei chyfanrwydd, mae'r Strategaeth yn ymgais i ymateb i wendidau'r system bresennol drwy greu trefn fwy teg, fwy cynaliadwy a mwy cadarn sy'n galluogi pob dysgwr i elwa ar addysg o'r safon uchaf.

**4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Mae angen i'r Cabinet fabwysiadu Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 - 2036 er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor fframwaith strategol cyfredol a chadarn i lywio'r ddarpariaeth ysgolion dros y ddegawd nesaf. Mae'r Strategaeth bresennol yn dyddio o 2010 ac nid yw bellach yn adlewyrchu'r cyd-destun polisi, demograffig nac ariannol presennol.

Mae'r Strategaeth newydd yn ymateb yn uniongyrchol i:

- newidiadau cenedlaethol sylweddol, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r drefn Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- heriau lleol megis gostyngiad mewn niferoedd disgyblion, anawsterau recriwtio a chadw staff, a phwysau ariannol sylweddol ar y system ysgolion;
- yr angen i sicrhau bod y rhwydwaith ysgolion yn gynaliadwy, yn wydn ac yn gallu darparu addysg o safon gyson i bob dysgwr.

Mae'r Strategaeth yn gosod blaenoriaethau clir i:

- gryfhau arweinyddiaeth a chapasiti ysgolion;
- datblygu gweithlu medrus, dwyieithog a chynaliadwy;
- gwella cysondeb, cynhwysiant a llesiant dysgwyr a staff;
- buddsoddi'n strategol yn y stad ysgolion a'r amgylcheddau dysgu.

Wrth ei llunio, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys penaethiaid, llywodraethwyr, staff addysg a phlant a phobl ifanc, ac mae'r Strategaeth wedi bod yn destun craffu ffurfiol gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Mae'r fersiwn a gyflwynir i'r Cabinet yn adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd ac yn cryfhau'r ddogfen o ran ffocws, eglurder a threfniadau llywodraethu.

Mae mabwysiadu'r Strategaeth yn galluogi'r Cyngor i:

- gweithredu mewn modd cydlynol a thryloyw dros y tymor canolig a'r tymor hir;
- cydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010;
- darparu sail glir ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol yn y maes ysgolion.

Mae dirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Addysg, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Addysg, i wneud mân newidiadau golygyddol cyn cyhoeddi'r Strategaeth yn sicrhau bod y ddogfen derfynol yn gyson, yn glir ac yn addas i'w gweithredu, heb effeithio ar ei chyfeiriad strategol na'i goblygiadau ariannol.

**5. Ymgysylltu**

5.1 Wrth lunio'r Strategaeth, manteisiwyd ar y cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn derbyn mewnbwn ac adlewyrchu safbwyntiau a barn y rhai a fydd yn defnyddio ac yn gweithredu'r Strategaeth.

Ymgysylltwyd â Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd, Cynradd ac Arbennig, Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd, yn ogystal â Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc, gan sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau proffesiynol a lleisiau dysgwyr yn llywio datblygiad y Strategaeth.

Yn ogystal, roedd holiadur electronig ar agor am gyfnod o wyth wythnos, gan roi cyfle i randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys ysgolion, llywodraethwyr a staff addysg, gyflwyno eu sylwadau a'u barn ar y Strategaeth.

Derbyniwyd cyfanswm o 19 ymateb, gyda dros hanner y rhain yn dod gan lywodraethwyr ysgolion, gan ddarparu adborth ansoddol gwerthfawr. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebion gefnogaeth i gyfeiriad strategol y ddogfen, gan gydnabod ei bod yn ymateb yn realistig i heriau demograffig, ariannol ac addysgol y sir, ac yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. Nodwyd themâu allweddol megis cynaliadwyedd y rhwydwaith ysgolion, pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac addysg drochi, heriau'r gweithlu, lles disgyblion, a'r angen am drefniadau llywodraethu clir.

Cynhaliwyd ymgysylltiad penodol â phobl ifanc drwy Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau bod eu profiadau a'u safbwyntiau'n llywio'r Strategaeth. Tynnodd y trafodaethau sylw at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel elfen greiddiol o hunaniaeth a bywyd ysgol, yr angen am brofiad dysgu teg a chynhwysol, pryderon ynghylch trefniadau addysgu megis defnyddio athrawon llanw a darpariaeth dysgu digidol, a disgwyliad clir y dylid cryfhau mecanweithiau ar gyfer llais a chyfranogiad pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd yn gryf â phrif amcanion y Strategaeth ac yn tanlinellu pwysigrwydd parhau i ymgysylltu â phobl ifanc wrth ei gweithredu.

Yn ychwanegol, ystyriwyd yr adborth a dderbyniwyd drwy'r gweithgareddau ymgysylltu hyn ochr yn ochr â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi er mwyn mireinio a chwblhau'r Strategaeth cyn ei chyflwyno i'r Cabinet.

Gyda'i gilydd, mae'r ymgysylltiad hwn wedi darparu sail dystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau'r Cabinet ynghylch gweithredu'r Strategaeth.

Gellir gweld rhagor o fanylion ynghylch pwy yr ymgysylltwyd â hwy yn yr Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd yn **Atodiad 2**. Mae canlyniadau'r ymgysylltu ar gael **yn Atodiad 3** – Canlyniadau'r Holiadur, ac **Atodiad 4** – Ymgysylltu â Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc.

## 6. Sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

6.1 O dderbyn argymhellion Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 11 Rhagfyr 2025, mae'r Pennaeth Addysg, ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Addysg, wedi ystyried yn ofalus yr ystod lawn o sylwadau a gyflwynwyd gan yr Aelodau wrth lunio'r Strategaeth. O ganlyniad i'r broses graffu hon, mae'r Adran Addysg wedi llunio drafft diwygiedig sy'n adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd ac sy'n cryfhau'r Strategaeth yn sylweddol o ran eglurder, ffocws a threfniadau llywodraethu.

Diogelu – mae diogelu wedi'i osod yn gadarn fel blaenoriaeth ganolog drwy'r Strategaeth gyfan, ac mae'n cael ei adlewyrchu'n glir yn y gwerthoedd a'r meysydd blaenoriaeth. Er mwyn tanlinellu ei bwysigrwydd, mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â diogelu a llesiant wedi'i symud i safleoedd mwy amlwg o fewn y ddogfen, gan sicrhau bod y ddyletswydd i ddiogelu plant a phobl ifanc yn glir ac yn greiddiol i bob agwedd ar y ddarpariaeth addysgol.

Tlodi a thegwch cymdeithasol – mae'r egwyddorion hyn wedi'u gwreiddio yn y gwerthoedd sy'n sail i'r Strategaeth, gyda'r nod o sicrhau bod pob disgybl, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau, yn derbyn y gefnogaeth a'r cyfleoedd i wireddu ei botensial llawn. Caiff y maes hwn ei ategu ymhellach drwy brosiect penodol o fewn Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag anfon plant i'r ysgol, gan gynnwys gwaith megis cynnal awdit mewn ysgolion a datblygu Siarter cost cyfeillgar i deuluoedd.

Mynediad i lais rhieni – mae ymgysylltiad ystyrlon â rhieni wedi'i ymgorffori drwy rannu'r Strategaeth gyda'r Fforwm Llywodraethwyr, yn ogystal ag ymgysylltu ag ysgolion er mwyn adlewyrchu safbwyntiau rhieni, gan sicrhau bod eu barn yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth.

Cynhwysiad – caiff cynhwysiad sylw penodol drwy Strategaeth Cynhwysiad yr Adran Addysg a lansiwyd yn 2025, sy'n cefnogi'r weledigaeth o ddarparu system addysg deg a hygyrch sy'n diwallu anghenion amrywiol pob dysgwr.

Y Gymraeg – mae'r Gymraeg yn thema drawsbynciol drwy'r Strategaeth ac yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n siapio ac yn llywio datblygiad y system addysg yng Ngwynedd, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus i gryfhau'r iaith a'i defnydd o fewn addysg a bywyd ysgol.

Lles staff ysgolion – cydnabyddir pwysigrwydd lles staff fel elfen allweddol o system addysg lwyddiannus, ac mae ymrwymiad clir i ddatblygu Strategaeth Lles Staff Ysgolion erbyn y flwyddyn academaidd nesaf er mwyn cefnogi a chynnal y gweithlu addysg.

Ysgolion Ffydd – cydnabyddir cyfraniad pwysig ysgolion ffydd at ddarpariaeth addysgol Gwynedd, a'r rôl unigryw y maent yn ei chwarae wrth gefnogi anghenion ysbrydol, moesol a chymunedol disgyblion. Wrth weithredu'r Strategaeth, bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n adeiladol gyda chorff llywodraethu ysgolion ffydd a'u partneriaid perthnasol, gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau'n parchu eu cymeriad crefyddol, tra'n cyd-fynd â'r weledigaeth ehangach ar gyfer system addysg deg, gynhwysol ac o safon uchel.

Yn ogystal, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Craffu, mae pennod newydd ar Lywodraethu wedi'i hychwanegu at y Strategaeth. Mae'r bennod hon yn cryfhau trefniadau atebolrwydd, goruchwyliaeth a gwneud penderfyniadau, gan egluro rolau a chyfrifoldebau allweddol a sicrhau bod y trefniadau llywodraethu'n gadarn, yn dryloyw ac yn addas i gefnogi'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Ngwynedd.

## 7. Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd

7.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Gellir gweld yr Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd yn **Atodiad 2**. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at ganfyddiadau yr asesiad nad oedd wedi adnabod materion fyddai yn gorbwyso yn erbyn symud ymlaen â'r Strategaeth.

## 8. Cyfraniad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

Gellir gweld yn yr Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd yn **Atodiad 2,** sy'n nodi sut yn union mae'r Strategaeth yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy weithredu'r pum ffordd o weithio, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

## 9. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 9.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn croesawu'r Strategaeth Ysgolion sydd yn cyflwyno gweledigaeth glir ar gyfer y gyfundrefn ysgolion dros y 10 mlynedd nesaf, gan egluro gyda thystiolaeth y sefyllfa a ragwelir, a'r heriau mae'r Cyngor yn eu wynebu dros y cyfnod er mwyn sicrhau fod ein ysgolion yn parhau'n gynaliadwy. Mae gan yr ysgolion gyfanswm cyllideb o dros £100 miliwn, felly mae mabwysiadu strategaeth a gweledigaeth ar gyfer y maes yn garreg filltir allweddol.

### 9.2 Swyddog Monitro

Mae arwyddocâd mabwysiadu y Strategaeth yma ar gyfer Ysgolion Gwynedd yn amlygu ei hyn yn yr adroddiad. Mae'n caniatáu i'r Cabinet osod amcanion ar gyfer ei gyfrifoldebau o ran trefn ysgolion o fewn y sir gyda gweledigaeth eglur. Mae'r gwaith o baratoi y Strategaeth wedi derbyn mewnbwn cyfreithiol eisoes. Fe esbonnir y camau a'r ymgysylltu sydd wedi digwydd wrth baratoi y ddogfen yma ynghyd â mewnbwn y Pwyllgor Craffu. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 - Strategaeth Ysgolion 2026 – 2036

Atodiad 2 – Asesiad Ardrawiad Cyfansawdd

Atodiad 3 – Canlyniadau'r Holiadur Strategaeth Ysgolion Gwynedd 2026 -2036

Atodiad 4 – Ymgysylltu gyda'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc